



**CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL**

**DYLAN J. WILLIAMS** BA (Hons), MSc, MA, M.R.T.P.I.  
Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd  
Head of Service – Regulation and Economic Development

CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre  
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park  
LLANGFNI  
Ynys Môn • Isle of Anglesey  
LL77 7XA

ffôn / tel: (01248) 752499  
ffacs / fax: (01248) 752192

Gofynnwch am / Please ask for: Dylan Williams  
E-bost / Email: [DylanWilliams@ynysmon.gov.uk](mailto:DylanWilliams@ynysmon.gov.uk)  
Ein Cyf / Our Ref: YM / EN010007  
Eich Cyf / Your Ref: EN010007

Dyddiad / Date: 25.3.19

Ms Kay Sully,  
The Planning Inspectorate,  
National Infrastructure Planning,  
Temple Quay House,  
2, The Square,  
Bristol,  
BS1 6NP

Annwyl Kay,

Archwiliad DCO Wylfa Newydd EN010007 – Cyflwyniadau ar gyfer Dyddiad Cau 8.

Ers Dyddiad Cau 7, mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) a Pŵer Niwclear Horizon (PNH) wedi buddsoddi llawer o amser ac ymdrech mewn adolygu, drafftio a chytuno ar ddiwygiadau i Ofynion, y CoCPs a Darpariaethau Gwarchodol, bwrw ymlaen â'r cytundeb a106 a hefyd wrth ddiwygio'r Datganiad o Dir Cyffredin. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ym mhob un o'r meysydd gweithgarwch hyn.

Yn ei Gyflwyniad D7, fe wnaeth CSYM oedi ei ymateb i rai Pwyntiau Gweithredu penodol gan ymroi i ddarparu diweddariadau ar amryw o faterion eraill yn ei gyflwyniad D8. Fe welwch y rhain isod.

1. Strategaeth Graddoli Meysydd Parcio

Mae CSYM yn cadarnhau ei fod yn fodlon y gall gymeradwyo'r niferoedd isafswm o lefydd parcio ym mhob un cam o'r prosiect o dan Ofyniad PW7 y DCO. Mae CSYM yn fodlon gyda sgôp y Strategaeth Camau Parcio Ceir fel y cadarnheir yn Rhan 1 o Atodlen 21.

Mae CSYM wedi gofyn bod PNH yn cadarnhau yn CoCP Wylfa Newydd y bydd y Strategaeth yn cael ei hadolygu bob chwarter trwy gydol y cyfnod adeiladu a bod unrhyw newidiadau i'r Strategaeth, yn dilyn adolygiadau o'r fath, yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo i CSYM/Grŵp Ymgysylltu ar Drafnidiaeth.

2. Pryderon Traffig a Phriffyrdd mewn Cymunedau Lleol.

2.1 Materion Traffig yn effeithio ar Lanfachaeth

Cynhaliwyd cyfarfod rhwng CSYM, Heddlu Gogledd Cymru, Albert Owen AS a Mr. Bob Wright ar 15/03/19 i drafod materion traffig sy'n effeithio ar Lanfachaeth. Rhoddwyd y cyfle i bob parti gyfleu unrhyw bryderon oedd ganddynt ar y pryd gyda'r Rhwydwaith Priffyrdd ac unrhyw effeithiau posib sy'n deillio o Brosiect Wylfa Newydd.

Cytunwyd i frwr ymlaen â'r camau gweithredu a ganlyn:-

- Heddlu Gogledd Cymru mewn trafodaethau yn y dyfodol gyda Mr. Bob Wright i archwilio'r posibilrwydd o weithredu menter Gwyllo Cyflymder yn y Gymuned yn Llanfachaeth.
- CSYM i gomisiynu arolwg cyflymder yn Llanfachaeth (lleoliad i'w gytuno) gyda'r Bartneriaeth Gorfodaeth Gan Bwyll / GoSafe.

## 2.2 Defnyddwyr Di-fodur ar hyd yr A5025 o Fali i Ardal Datblygiad Wylfa Newydd

Cynhaliwyd cyfarfod rhwng CSYM, PNH a Phartneriaeth Cyngor Gogledd Môn (NACP) ar 15/03/19 i drafod y ddarpariaeth ar gyfer defnyddwyr nad ydynt mewn modur ar hyd neu ger yr A5025 o Fali i Ardal Datblygiad WN.

Rhodddwyd y cyfle i NACP godi unrhyw bryderon gyda'r cynigion cyfredol a chafwyd trafodaethau ynglŷn â phob rhan o'r A5025 i asesu pa newidiadau pellach y gellid eu gweithredu fel rhan o'r Prosiect er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posib ar ddefnyddwyr di-fodur yn ystod y cyfnod adeiladu a'r cyfnod gweithredu fel ei gilydd. Pan fo'n bosib, bydd newidiadau i'r dyluniad a awgrymwyd gan NACP yn cael eu gweithredu gan PNH (h.y. llwybr rhannu-defnydd Bwlch i Tregale), fodd bynnag, roedd nifer o'r awgrymiadau'n ymwneud â Gwelliannau Ar-lein yr A5025 o dan y TCPA a oedd wedi eu rhwystro gan faterion CPO sy'n dod o'r DCO.

Cytunwyd i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu a ganlyn:-

- a. Horizon i gyflwyno dogfennaeth ddiwygiedig erbyn Dyddiad Cau 8 i ddarparu manylion am y llwybr rhannu-defnydd o gylchfan mynediad Ardal Datblygiad WN i fyny at Tregale.
- b. CSYM i drafod y llwybr ailgyfeirio amgen hwn o Lwybr Beicio Cenedlaethol NCR566 gyda Sustrans.(SOCG)
- c. Horizon i barhau i gynnal trafodaethau gyda Rhwydwaith Ynni Scottish Power ynglŷn ag ail-leoli polion trydan yn Llanynghenedl.
- d. CSYM a PNH i barhau â thrafodaethau ar Atodlen 7 (Trafnidiaeth) o'r cytundeb a.106

## 2.3 Materion Traffig yn effeithio ar Gyngor Cymuned Mechell

Mae CSYM yn nodi pryderon Cyngor Cymuned Mechell mewn perthynas â'r posibilrwydd o broblemau parcio anghyfreithlon a phobl yn defnyddio lonydd cefn yn hytrach na'r brif ffordd ar y ffyrdd Dosbarth II, Dosbarth III a ffyrdd Di-ddosbarth sy'n arwain at Ardal Datblygiad WN.

Mae CSYM hefyd wedi codi pryderon tebyg trwy gydol y broses Cyn-Gwneud-Cais a'r Archwiliad DCO.

PNH sydd â'r cyfrifoldeb am sicrhau bod yr holl weithwyr yn cydymffurfio â'u Strategaeth Rheoli Gweithlu (sy'n cynnwys awgrymiadau am gamau disgyblu) a Chod Ymarfer Adeiladu.

Bydd yna brosesau mewn lle er mwyn i drigolion lleol allu adrodd yn uniongyrchol wrth PNH am ddiwyddiadau o barcio anghyfreithlon a theithio ar hyd lonydd cefn.

Yn ogystal, mae CSYM a PNH yn parhau i gael trafodaethau ar Atodlen 7 (Trafnidiaeth) o'r cytundeb a.106.

## 3. Atodlen 19 y DCO – Ffioedd

Mae CSYM yn cadarnhau ei fod wedi cyflwyno Atodlen amgen o ffioedd i PNH ei hystyried. Bydd CSYM yn rhoi diweddariad pellach erbyn D9.

## 4. Cais rhif 6 am Newid Di-faterol (RfNMC): Gwella Cyffordd Parcio a Theithio Dalar Hir (Cyflwynwyd gan PNH yn ystod Dyddiad Cau 7)

Mae CSYM yn croesawu cais PNH am newid di-faterol rhif 6 Gwella Cyffordd Parcio a Theithio Dalar Hir, gan fod y cais yn cynnwys cael gwared ar y gylchfan fewnol yn y Maes Parcio a Theithio er mwyn darparu un fraich o'r gylchfan bresennol ar yr A5 ger y gyffordd 'dumbbell' A5/A55 (Cyffordd 4), fel y disgrifir yn adran 2.4 ac a ddangosir yng nghynllun P 60506637/SK/54 yn Atodiad A. Cytunwyd ar y newid rhwng PNH a CSYM fel rhan o'i ymgysylltiad parhaus.

Mae CSYM yn fodlon na ragwelir unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol newydd neu wahanol mewn perthynas â'r newid arfaethedig.

Mae CSYM yn cytuno bod angen yr Atodlen o ddiwygiadau canlyniadol i ddogfennau'r cais sydd wedi'i chynnwys yn adran 2.5 o'r Adroddiad Newid Di-faterol er mwyn gallu gweithredu'r newid.

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.

You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.

5. Storio a Phrosesu'r canfyddiadau/olion Archeolegol a Gloddiwyd

Mae CSYM yn cadarnhau, yn dilyn y Gwrandawiadau Materion Penodol ym mis Mawrth, ei fod wedi derbyn Cynllun Adfer Amlinellol gan Horizon sy'n amlinellu sut mae Horizon yn bwriadu symud ymlaen â materion i sefydlu datrysiad tymor hir sy'n gweithio er mwyn rhoi sylw i faterion archeolegol ar Safle Wylfa Newydd. Mae CSYM yn croesawu'r cynllun ac mae ar hyn o bryd yn ymgysylltu ymhellach â PNH er mwyn cadarnhau manylion Cynllun Adfer cynhwysfawr a fydd yn cynnwys manylion ynghylch pryd y bydd pob cam o'r cynllun (asesiad ar ôl cloddio, dadansoddiad, creu adroddiad, cyhoeddi, archifo a dosbarthu) yn cael ei wneud a'i gwblhau.

6. Strategaeth Graddoli

Mae CSYM wedi derbyn Strategaeth Graddoli ddiwygiedig gan PNH yn dilyn y Gwrandawiadau Materion Penodol ym mis Mawrth ac mae wedi darparu sylwadau. Yn gryno, er ein bod yn credu bod y Strategaeth Graddoli ddiwygiedig yn gliriach yn nhermau ei rôl a'i phwrpas (h.y. o ran cyflawni'r mesurau lliniaru allweddol), mae gennym dal bryderon oherwydd yr anghysondeb rhwng y graddoli dangosol (Ffigwr 2-1) a'r sbardunau arfaethedig.

Mae CSYM wedi gofyn am ragor o fanylion am y trothwyon a pha bryd y byddant yn debygol o gael eu sbarduno, ond nid yw wedi derbyn y manylion hynny. Fel y cadarnhaodd CSYM yn ystod y gwrandawiadau ISH ym mis Mawrth, mae'r Cyngorau yn gofyn bod pob un o'r mesurau lliniaru allweddol yn cynnwys cerrig milltir clir (blynyddoedd a chwarteri) er mwyn sicrhau y cânt eu cyflawni ar amser i liniaru effeithiau. Mae Graddoli Dangosol gyda sbardunau sy'n gwrthdaro yn annerbyniol.

Mae CSYM felly'n gofyn bod y diwygiadau canlynol yn cael eu gwneud i dabl 2.2 o'r Strategaeth Graddoli mewn perthynas â chadarnhau'r amseriad ar gyfer cyflawni (sbardunau) a'r cyfyngiadau cyn-cyflawni;

Mesur lliniaru allweddol	Amseriad ar gyfer Cyflawni (Sbardunau)	Cyfyngiad Cyn-cyflawni
Cyfleuster Parcio a Theithio yn Dalar Hir	Cyflawni erbyn Ch4 BI 2	Cyn agor y cyfleuster Parcio a Theithio yn Dalar Hir, ni chaiff nifer y gweithwyr a gyflogir yn Ardal Datblygiad WN fynd yn uwch na 3,000.
Campws y Safle	Byddai Horizon yn cwblhau Campws y Safle yn y tri cham canlynol: <ul style="list-style-type: none"><li>• Darparu'r 1,500 o welyau cyntaf yng Nghampws y Safle cyn Ch4B4. Byddai'r cam hwn yn cynnwys cyflawni'r bloc mwynderau canolog.</li><li>• Darparu 1,500 gwely arall cyn Ch1B6 a</li><li>• Darparu'r 1,000 o welyau terfynol cyn Ch4BI6.</li></ul>	d/b

Mae'r sbardunau hyn yn seiliedig ar yr angen i gwrdd â galw disgwylidig, sydd wedi'i gyfrifo gan CSYM ar sail ffigyrau Horizon sydd wedi'u cynnwys yn yr ES.

7. Diweddariad A106

Mae CSYM yn cydnabod yr ymdrech a'r amser sylweddol a roddwyd i'r cytundeb A106 yn yr wythnosau diwethaf. Mae PNH wedi ymgysylltu'n helaeth â CSYM a budd-ddeiliaid ac mae'r cytundeb A106 wedi dod yn ei flaen o ran y manylder.

Mae CSYM yn deall ac yn cefnogi cais PNH i gyflwyno'r cytundeb A106 terfynol i'r Archwiliad yn fuan ar ôl Dyddiad Cau D8 er mwyn caniatáu drafftio ymhellach.

Mae CSYM yn cadarnhau bod trafodaeth bellach wedi digwydd ers D7 ynglŷn â'r Gronfa Tai. Mae'r Cyngor, PNH a Chyngor Gwynedd yn gytûn ynghylch y canrannau rhaniad yn amodol ar ddrafftio cytundeb A106 derbyniol. Mae Llywodraeth Cymru yn dal o'r farn nad yw'r Gronfa Tai yn ddigonol.

#### 8. Darpariaethau Gwarchodol

Mae CSYM a PNH wedi cytuno mewn egwyddor ar gyfres o ddarpariaethau gwarchodol er mwyn gwarchod yr awdurdod priffyrdd a'r awdurdod llifogydd lleol arweiniol. Mae'r rhan fwyaf o ddrafftio'r darpariaethau hyn wedi'u cytuno hefyd a dim ond mân bwyntiau sy'n weddill a disgwylir y caiff y rhain eu datrys yn fuan. Mae CSYM yn deall y bydd PNH yn cyflwyno'r drafft terfynol, cytunedig o'r Darpariaethau Gwarchodol erbyn Dyddiad Cau 9.

#### Yn Gywir



**DYLAN J. WILLIAMS**

Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd